

---

# Adolygiad o reolau cystadleuaeth yn y Cod Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG)

---

## **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 14 Awst 2020

Dyddiad Cau ar gyfer derbyn Ymatebion: 25 Medi 2020

# 1. Trosolwg

**Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynigion i gadw rheolau cystadleuaeth ar ddarparwyr cyfeiryddion rhaglenni electronig (EPG) er mwyn parhau i gefnogi cystadleuaeth deg ac effeithiol.**

Mae cyfeiryddion rhaglenni electronig yn cael eu darparu gan lwyfannau teledu i alluogi gwylwyr i ganfod a dewis cynnwys teledu sy'n cael ei wyllo ar yr adeg mae'n cael ei ddarlledu, sy'n cael ei alw'n deledu 'llinol'. Mae ein Cod EPG yn nodi rheolau ar gyfer darparwyr EPG gan gynnwys rheolau i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.

Cyflwynodd Deddf yr Economi Ddigidol 2017 ofyniad i ni adolygu'r Cod EPG cyn 1 Rhagfyr 2020. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ein casgliadau dros dro ar reolau cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y Cod EPG.

## Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

**Mae Teledu Llinol yn dal i gael ei werthfawrogi a'i wyllo'n helaeth ac mae EPGs yn ffordd bwysig o gael mynediad at y cynnwys hwn.** Bu newid sylweddol yn y ffordd rydym yn ymgysylltu â'r cyfrwng ers i'r rheolau gael eu gosod yn 2004. Mae mwy a mwy o bobl yn mynd ar-lein i gael mynediad at amrywiaeth o gynnwys, a chreu eu cynnwys eu hunain. Er hynny, mae teledu llinol yn dal yn bwysig ac mae EPGs yn ffordd bwysig o ddod o hyd i raglenni teledu.

**Mae dal angen rheolau cystadleuaeth.** Yn ein barn ni, mae'n rhaid cael rheolau o hyd ar gyfer darparwyr EPG trwyddedig i ymgysylltu â darparwyr sianeli ar delerau teg, rhesymol ac nad yw'n gwahaniaethu. Diben hyn yw sicrhau nad yw trwyddedeion yn ymrwmo neu'n cynnal trefniadau neu'n cymryd rhan mewn arferion a fyddai, yn ein tyb ni, yn dwyn rhagfarn yn erbyn cystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydym yn dod i'r casgliad dros dro ei fod yn fwy priodol cael y rheolau hyn yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar ein pwerau o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998.

**Mae'r rheolau presennol yn gweithio'n dda.** Ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym yn cynnig gwneud mân newidiadau yn unig i'r rheolau presennol. Yn anad dim, rydym yn cynnig bod yn rhaid i ymgynghoriadau gan ddarparwyr EPG ddilyn proses dryloyw a sicrhau bod amserlenni rhesymol ar gyfer darparwyr sianeli i wneud sylwadau a gweithredu.

## Y camau nesaf

- 1.1 Ymgynghoriad ydy hwn ac rydym yn croesawu unrhyw safbwyntiau a sylwadau gan rhanddeiliaid ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 25 Medi 2020. Byddwn yn ystyried ymatebion rhanddeiliaid i'n cynigion ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein penderfyniadau cyn 1 Rhagfyr 2020.